

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 8ed o Fehefin 2010.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Davydd Glyn Owen (Cadair); Harry Wyn Owen, D Martin Williams (Talysarn); Hefina MW Roberts, Richard Evans, Gwyndaf Roberts (Llanllyfni; Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones Griffith, Barry Bracegirdle, Iwan Lloyd Williams (Penygroes); T Les Jones (Nantlle); Eurig Evans (Nebo); OP Huws (Cyngorydd Sir).

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- Cais llawn i adeiladu gweithdy newydd ac ymestyn maint y safle i greu lle parcio - HG Motors, Tre Ddafydd, Penygroes. CYMERADWYO.
- Cais i godi estyniad i greu ystafell feddygol a storfa newydd ynghyd a chreu rampiau mynedfa – Ysgol Bro Llew. Rhai manlion ar y cais yn anghywir. Hysbysu Cyngor Gwynedd.
- Cais amlinellol ar gyfer dymchwel gweithdy presennol ynghyd a chodi un annedd – 22A Station Road, Talysarn. Pryder am edrychiad y ty – ddim yn gweddu efo'r tai presennol. Hefyd, ffenest ochr y ty drws nesaf gyferbyn a'r balconi – bydd y datblygiad yn tarfu ar breifatrwydd – GWRTHWYNEBU.
- Cais i godi ports ar ochr yr eiddo, ail-doi adeilad allanol presennol, codi adeilad a gosod gwaith trin carthion ar gyfer defnydd preswyl ynghyd a gosod paneli solar – Hafodlas, Talysarn. CYMERADWYO.

Hysbyswyd y Cyngor o benderfyniadau Cyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio eraill, sef ceisiadau Mynwent Salem, Llanllyfni a 3 Cae Melan, Penygroes. Roedd y Cyngor dal yn anhapus gyda'r penderfyniad a'r ymateb gyda chais Cae Melan, ac yn gresynu bod caniatad cynllunio wedi ei roi ar y cais gwreiddiol (sef i ymuno a'r system garthffosiaeth), heb iddynt wybod ble'r oedd y beipen garthffosiaeth. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried yn fanwl cyn i gais ddod i law am y 3ydd ty.

Gohebiaeth

- Hysbyswyd y Cyngor am waith ail0wynebu Ffordd y Parc, Nasareth. Bydd y ffordd ar gau am gyfnod o bythefnos.
- Derbyniwyd gwybodaeth gyffredinol ar berchnogaeth tir comin gan Un Llais Cymru er gwybodaeth i'r Cyngor.
- Bydd Dwr Cymru yn gwneud gwaith yn y Gwaith Trin Dwr Cwm Dulyn yn Nebo. Byddwn yn gofyn iddynt reoli traffic heibio'r ysgol i gydfynd ag oriau agor yr ysgol.
- Gweithgor Glynllifon – derbyniwyd cais am fewnbwn y Cyngor Cymuned i adroddiad ar amodau a rheoli Glynllifon. Byddwn yn eu gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Adroddiadau Pentrefi.

Nebo Blwch ffonio –byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r cais cynllunio i newid defnydd. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn mynd yn eu blaen i greu mynedfa Lon Eifion o Nebo gan eu bod wedi dod ar draws rhai anhawsterau.

Penygroes Roedd y Cyngorwyr wedi siomi gyda'r gwlaiau blodau yn y pentref – byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd; Parcio dal yn broblem tu allan i'r Co-op rhwng 5 a 9 y nos. Byddwn yn gofyn am bresenoldeb amlach y wardeiniaid traffic; Byddwn hefyd yn gwneud cais am linellau dwbwl melyn tu allan i giat y Vic, gan bod ceir yn parcio yno, a loriau yn methu troi.

Talysarn Derbyniwyd cwynion am hogiau gyda cheir ar y penwythnosau, rhwng 10 a 12.00 yn creu niwsans. Fe glywyd bod y Parc, y Ganolfan a'r Parc Sglefrio yn boteli i gyd. Roedd y mater eisioes wedi ei adrodd i'r heddlu – byddwn ninnau yn gofyn i'r heddlu fynd yno i gadw llygad; Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd am arwydd 'Dim Chwarae Pel' i faes parcio'r Ganolfan, gan bod rhai yn cicio pel i ben to y Ganolfan ac yn malu llechi.

Llanllyfni Llwybr trwy Gors Tan Bryn o Lon Eifion – derbyniwyd cwyn bod y bont mewn cyflwr gwael, bod Japanese Knotweed yn tyfu, bod ysbwriel angen ei glirio a giat wedi malu. Byddwn yn cysylltu gyda'r Adran Llwybrau.

Nantlle Mae'r coed sydd wedi eu trimio o Petris i Ty Mawr West angen eu tocio fwy.

Talysarn Cofeb R Williams Parry – angen ei ail-pheintio. Dywedwyd mai'r Brifysgol yw'r perchennog. Byddai angen gofyn caniatad cyn cael rhywun i baentio'r gofeb.

Llwybrau Derbyniwyd cwyn fod twll yn y tarmac ar Llwybr Lon Eifion (rhwng Clwb Bach i Garej Povey) mae'r tarmac wedi gollwng wrth y bont bren.

Materion yn ymwneud a'r heddlu Byddwn yn adrodd i'r Heddlu fod graffiti wedi ei beintio ar wal y fynwent (pilar y giat) yn MacPelah. Roedd gweithiwr y Cyngor wedi trio'i lanhau a methu, ac wedi gorfod peintio drosto; Hefyd byddwn yn tynnu sylw'r heddlu bod rhai yn reidio beic ar Lon Eifion heb gloch na chorn – ac yn gofyn os yw hyn yn gyfreithiol.